Ysgol David Hughes

Bwletin Disgyblion

Pupils Bulletin

16/11/2012

CERDD/MUSIC

Llongyfarchiadau i'r **Parti Cerdd Dant** ar ddod yn drydydd yng Ngwyl Cerdd Dant Dyffryn Conwy'r wythnos diwethaf.

Llongyfarchiadau hefyd I **Siwan Powell Jones 10Y** ar ddod yn ail ar yr unawd telyn.

Congratulations to the **Cerdd Dant Party** who came third in **the Dyffryn Conwy Cerdd Dant Festival** last week. Co

Congratulations also to **Siwan Powll Jones 10Y** who came second on the harp.

FFAIR NADOLIG CYFEILLION YSGOL DAVID HUGHES / FRIENDS OF DAVID HUGHES CHRISTMAS FAIR

Nos Wener 30 Tachwedd 2012

- **Tocynnau Raffl:** Cofiwch fod mwy o docynnau raffl ar gael yn Adnoddau.

- **Ffair Nadolig – Dydd Gwener, 30 Tachwedd**. Os oes gan unrhyw un eitemau nad ydych eisiau bellach ac rydych yn dymuno eu rhoi i'r ysgol ar gyfer y ffair, a fyddech yn dod â'r eitemau i Adnoddau yn ystod y ddwy wythnos nesaf neu i'r Swyddfa Fawr yn ystod yr wythnos yn dechrau dydd Llun, 21 Tachwedd, os gwelwch yn dda. Byddem hefyd yn gwerthfawrogi unrhyw eitemau sydd gennych ar gyfer y raffl.

Friday 30 November 2012

- **Raffle Tickets:** Remember that there are more tickets available in Resources.

- **Christmas Fair – Friday 30 November**. If anyone has any unwanted items that they would like to donate to the Fair please bring them to Resources during the next two weeks, or to the Main Office during the week beginning Monday, 21 November. Also, any items for the raffle would be greatly appreciated.

'OPERATION CHRISTMAS CHILD'

Nodyn i'ch atgoffa fod blychau 'Operation Christmas Child' yn gael eu casglu o'r Ysgol ar **dydd Mawrth 20/11/2012**.

A note to remind you that the Operation Christmas Child boxes will be collected for the School on **Tuesday 20/11/2012.**

YMRYSON SIARAD CYHOEDDUS URDD GOBAITH PUBLIC SPEAKING COMPETITION

Braf yw llongyfarch tîm siarad cyhoeddus Blwyddyn 12 Ysgol David Hughes ar eu buddugoliaeth yn ymryson yr Urdd gynhaliwyd ar nos Wener 9 Tachwedd 2012. Cangen Yr Urdd Ynys Môn oedd wedi trefnu'r gystadleuaeth ac roedd yn agored i ddisgyblion hŷn y pum ysgol uwchradd. Cynhaliwyd y noson yn ôl yr arfer yn Ysgol Gynradd Goronwy Owen, Benllech fel rhan o galendr gweithgareddau Cymdeithas Lenyddol Bro Goronwy, ac rydym yn ddiolchgar iawn iddynt am eu croeso cynnes.

Y beirniad oedd Mrs Linda Jones, Llanerchymedd a chafodd ei phlesio yn fawr gan waith graenus y ddau dîm, sef Ysgol Gyfun Llangefni ac Ysgol David Hughes. Er fod hanner dwsin o destunau ar gael dewisodd y ddwy Ysgol drafod yr un pwnc sef 'Ai melltith yntau bendith yw ffonau symudol?' – hwyrach fod hyn wedi gwneud gwaith y beirniad fymryn yn haws! Aelodau'r tîm buddugol oedd Elin Mererid Williams [Cadeirydd] , Huw Harvey ac Elis Roberts [Siaradwyr]. Mae Elis a Huw yn hen lawiau ar y gystadleuaeth yma erbyn hyn, gan mai hon yw'r trydydd blwyddyn o'r bron iddyn nhw fod yn rhan o'r tîm buddugol – da iawn chi hogia! A da iawn i Elin hefyd ar fod yn ddigon dewr i wneud y gwaith am y tro cyntaf, gyda'r fath record anrhydeddus yn y fantol! Llongyfarchiadau pellach i Elis ar gael ei ddewis yn siaradwr gorau'r noson; derbyniodd gopi o Eiriadur yr Academi yn ogystal â thaleb 'i-tunes' fel gweddill y tîm. Diolch yn fawr i'r athrawon fu'n hyfforddi'n brysur ac i'r disgyblion am eu hawydd i gystadlu a'u brwdfrydedd cyson.

It is my pleasure to congratulate Ysgol David Hughes' Year 12 Public Speaking Team on their success in the Public Speaking Competition that was held last Friday 9 November. The competition was organised by the Ynys Môn Branch of the Urdd and it was open to the older pupils from five highschools. The evening was held as usual at Ysgol Goronwy Owen and we are grateful to them for their warm welcome.

The Judge was Mrs Linda Jones, Llanerchymedd and she was immensely pleased with both team's hard work. The teams were from Ysgol Gyfyn Llangefni and Ysgol David Hughes. Although there were half a dozen subjects to choose from both schools chose the same subject which was "Ai melltith neu bendith yw ffonau symudol?" – this possibly made the judge's task a bit easier! Members of the winning team were **Elin Mererid Williams** (Chairperson), **Huw Harvey** and **Elis Roberts** (Speaker). Huw and Elis are old hands at this competition by now, since this is the third year that they have been part of the winning team – well done boys! And well done to Elin also for being so brave in doing the work for the first time, with such a prestigious record to uphold. Further congratulations to Elis on being nominated the best speaker of the night for which he received a copy of the Academy's Dictionary as well as and i-tunes giftcard along with the Elin and Huw. Many thanks to the teachers for their endless coaching and the pupils for their willingness to compete with such enthusiasm on the night.

SGÏO/SKIING

I bawb sydd yn mynd ar y trip sgïo mi fydd na sesiwn 'Ski Fit' yn y Neuadd Chwaraeon dydd Iau 22 Tachwedd 2012 o 3.20pm – 4.20pm. Mi fydd hyn yn adeiladu eich ffitrwydd cyn i chi fynd ar y cledrau.

For all pupils going on the skiing trip there will be a 'Ski Fit' session in the Sports Hall from 3.20pm – 4.20pm on Thursday 22 November 2012. This will build up your fitness levels for the slopes.